

Cydlynnydd Seibiannau Byr (Teithio Ymlaen)

TGP Cymru yw un o'r prif elusennau yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd trwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Caiff gwasanaethau TGP Cymru eu hariannu gan sawl cyllidwr ac mae'n darparu gwasanaethau ledled Cymru.



Adran TGP Cymru: Gwasanaethau i'r Teulu

Yn gyfrifol i: Rheolwr Tîm: Teithio Ymlaen

Lleoliad: Rôl Cymru Gyfan - Wedi'i lleoli gartref – gweithio a theithio ledled Cymru

Diben y Rôl

- Mae Teithio Ymlaen yn darparu gwasanaethau eiriolaeth, cyngor ac ymgysylltu gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru i helpu pobl i gael mynediad at eu hawliau, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac ymdrin â gwahaniaethu.
- Bydd yr uwch swydd hon yn arwain y gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Seibiannau Byr Teithio Ymlaen ar gyfer gofalwyr di-dâl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru tan fis Mawrth 2029.
- Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda gofalwyr i gefnogi mynediad at seibiannau byr personol a chyfleoedd lles, meithrin cysylltiadau â sefydliadau partner, a chyfrannu at gyflwyno a datblygu'r rhaglen yn effeithiol.

Atebolrwydd / Cyfrifoldebau

- Arwain a chydlynu'r Rhaglen Seibiannau Byr Teithio Ymlaen ledled Cymru.
- Nodi ac ymgysylltu â gofalwyr di-dâl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy allgymorth, atgyfeiriadau a rhwydweithiau cymunedol.
- Gweithio'n uniongyrchol gyda gofalwyr i gwblhau asesiadau cymhwysedd a datblygu cynlluniau seibiant byr personol.
- Cefnogi gofalwyr i gael mynediad at grantiau seibiant byr yn unol â meini prawf y rhaglen a gweithdrefnau sefydliadol.
- Gweithio gyda chydweithwyr i drefnu archebion, pryniannau a thaliadau cymeradwy.
- Meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda sefydliadau gofalwyr, grwpiau cymunedol a phartneriaid perthnasol eraill ledled Cymru.
- Estyn allan at ofalwyr a allai fod yn llai tebygol o fanteisio ar gymorth, gan gynnwys teuluoedd ar ochr y ffordd, gofalwyr gwrywaidd, gofalwyr LHDTTC+ a gofalwyr ifanc.
- Hyrwyddo gwasanaethau cynhwysol a diwylliannol briodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Casglu adborth, canlyniadau a gwybodaeth arall sydd eu hangen ar gyfer monitro ac adrodd.

- Cadw cofnodion cywir gan ddefnyddio systemau cofnodi sefydliadol.
- Dilyn polisïau a gweithdrefnau TGP Cymru, gan gynnwys diogelu, diogelu data, cydraddoldeb a gofynion iechyd a diogelwch.
- Nodi ac ymateb yn briodol i bryderon diogelu.
- Cadw cyfrinachedd bob amser.
- Cyfrannu at ddatblygiad parhaus y gwasanaeth a gwaith partneriaeth ehangach.
- Gweithio gyda chydweithwyr ar draws TGP Cymru.
- Cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu a'ch datblygiad proffesiynol eich hun.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r rôl a'r radd.

Dangosyddion Perfformiad

- Nodi, ymgysylltu a chefnogi gofalmwr di-dâl yn llwyddiannus drwy'r rhaglen.
- Cefnogi gofalmwr cymwys i gael mynediad at seibiannau byr personol a chyfleoedd lles.
- Targedau a chanlyniadau'r rhaglen yn cael eu cyflawni.
- Cofnodion, gwybodaeth fonitro ac adroddiadau yn gywir ac wedi'u cwblhau ar amser.
- Cynnal perthnasoedd gwaith cryf gyda gofalmwr, cymunedau a sefydliadau partner.
- Adborth cadarnhaol yn dangos bod y rhaglen yn gwneud gwahaniaeth i les gofalmwr.
- Gwaith yn cael ei wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru.
- Deiliad y swydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at y tîm Teithio Ymlaen ac amcanion sefydliadol ehangach.

Cyfrifoldeb rheoli llinell:

Dim

Cyfrifoldeb rheoli cyllideb:

£0

Nid oes cyfrifoldeb rheoli cyllideb uniongyrchol ond bydd deiliad y swydd yn cydlynu ac yn monitro dyraniad grantiau seibiant byr yn unol â'r cyllidebau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer y rhaglen.

Gradd: Graddfa 3

Amodau gwaith:

- 22.5 awr yr wythnos gydag agwedd hyblyg at yr wythnos waith.
- Mae'r holl staff yn gweithio o gartref, ac mae angen cymysgedd o arferion gwaith a chyfathrebu â chleientiaid a phartneriaid dros y ffôn a thrwy e-bost a dulliau digidol eraill, ochr yn ochr â gweithio wyneb yn wyneb a gwaith allgymorth yn ôl yr angen.
- Mae hon yn rôl ledled Cymru sy'n gofyn am deithio'n rheolaidd ar draws Cymru.
- Efallai y bydd angen aros dros nos o bryd i'w gilydd i fynychu cyfarfodydd, hyfforddiant, cynadleddau, digwyddiadau allgymorth neu weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.
- Efallai y bydd angen gweithio y tu allan i oriau swyddfa o bryd i'w gilydd, gan gynnwys rhywfaint o waith gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- Efallai y bydd mynediad i ofod swyddfa TGP Cymru ar gael yn dibynnu ar leoliad.

Cymwysterau

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol, datblygu cymunedol, addysg, iechyd, gwaith cyngor neu ddisgyblaeth gysylltiedig (Dymunol).

Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Gweithio mewn ffordd ddiwylliannol gymwys a grymusol sy'n seiliedig ar gryfderau gydag unigolion a chymunedau.
- Meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd cadarnhaol gyda phobl o gefndiroedd amrywiol.
- Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu gwaith yn effeithiol.
- Rheoli llwyth gwaith amrywiol a bodloni terfynau amser.
- Gweithio'n annibynnol a chyfrannu'n effeithiol o fewn tîm hefyd.
- Cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Hwyluso sgysiau sy'n helpu pobl i nodi amcanion a gwneud dewisiadau gwybodus.
- Datblygu partneriaethau cynhyrchiol gydag asiantaethau a rhanddeiliaid allanol.
- Defnyddio systemau TG a chronfeydd data yn effeithiol at ddibenion cofnodi a monitro.
- Ymateb yn gadarnhaol i newid a chyfleoedd newydd.
- Dangos ymrwymiad i ddysgu parhaus a datblygiad proffesiynol.

Gwybodaeth / Profiad

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawni'r canlynol:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r materion sy'n effeithio arnynt.
- Profiad o weithio'n uniongyrchol gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr neu grwpiau eraill sy'n profi allgáu, gwahaniaethu ac anghydraddoldeb.
- Profiad o ddarparu cyngor, eiriolaeth, cymorth neu wasanaethau cymunedol.
- Gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â gofalwyr a gofalwyr di-dâl, neu brofiad o weithio yn y maes.
- Profiad o ymgysylltu â'r gymuned, allgymorth a meithrin perthnasoedd.
- Profiad o waith amlasiantaeth a phartneriaeth.
- Profiad o gynllunio, cydlynu a chyflawni prosiectau neu raglenni.
- Profiad o gasglu canlyniadau, monitro gwybodaeth ac adborth defnyddwyr gwasanaeth.
- Dealltwriaeth o les, ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Dealltwriaeth o ofynion diogelu, cyfrinachedd a diogelu data.

Arall

- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, arferion gwrth-hiliol a gwrth-wahaniaethol.
- Trwydded yrru lawn a mynediad at drafnidiaeth (mewn rhai amgylchiadau, gellir rhoi ystyriaeth i ymgeiswyr sydd, o ganlyniad i anabledd, yn methu gyrru).
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol).
- Sgiliau iaith gymunedol sy'n berthnasol i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (dymunol).
- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo'n weithredol mewn eraill.